

Coleg Gwent

CYNLLUN STRATEGOL
2016-2019



CONTENTS

- 04 Croeso gan y Cadeirydd
- 04 Gweledigaeth
- 04 Cenhadaeth
- 05 Cyflwyniad a Chyd-destun
- 08 Blaenoriaethau a Chantau Gweithredu Strategol:
- 09 Blaenoriaeth 1
- 10 Blaenoriaeth 2
- 11 Blaenoriaeth 3
- 12 Blaenoriaeth 4
- 13 Blaenoriaeth 5



CROESO GAN Y CADEIRYDD



Fel Bwrdd rydym yn falch ac yn gyffrous o fod yn arwain Coleg Gwent drwy gyfnod o ddatblygu sy'n adeiladu ar ein llwyddiannau presennol ac yn gosod sylfaen i ni fod Y Coleg o Ddewis i bobl a busnesau ar draws y rhanbarth.

Mae ein Cynllun Strategol yn cyflwyno agenda cyffrous i ni ei ddilyn. Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i wella'r gwasanaeth rydyn ni'n ei gynnig i'n dysgwyr, tra rydyn ni hefyd yn buddsoddi'n sylweddol yn yr adnoddau a'r cyfleusterau rydyn ni'n eu darparu.

Mewn partneriaeth gyda'n prif rhanddeiliaid – ein dysgwyr, ein gweithwyr a'n staff – byddwn yn gweithio i gynnig Coleg hynod effeithiol a chynaliadwy er mwyn helpu i adeiladu ffyniant ein rhanbarth o Gymru. Rydym yn hyderus y bydd y cynllun hwn yn ein harwain at sicrhau'r cyfleoedd a'r canlyniadau gorau i'n dysgwyr a'n gweithwyr.

Angela Lloyd
Cadeirydd

GWELEDIGAETH

Y Coleg o Ddewis.

CENHADAETH

Gwella Cyfleoedd Bywyd.

Rhagoriaeth Addysgol.

I Bawb.



CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y cyfnod o 2016 i 2019. Mae'n amlinellu'r prif gamau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, a sut y byddwn yn mesur ein llwyddiant wrth eu cyflawni.

Coleg Gwent yw un o'r colegau mwyaf ac un o'r rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru, gan gynnig amrywiaeth eang o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol i dros 18,000 o fyfyrwyr. Yn bennaf, rydym yn gwasanaethu'r cymunedau a'r busnesau ar draws bwrdeistrefi sirol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen drwy bum campws unigryw a chanolfan hyfforddiant Busnes Coleg Gwent.

Yn Coleg Gwent rydym yn dyheu am fod yn rhagorol yn yr oll rydyn ni'n ei wneud, a byddwn yn ymdrechu i wireddu hyn drwy gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn y cynllun hwn. Bydd 2016 i 2019 yn gyfnod o dwf ar gyfer y Coleg, yn dilyn ailffurfiad i reoli effaith toriadau ar ein cyllid. Mae'r Coleg wedi gwneud yn dda yn dilyn y blynyddoedd diweddar o doriadau i gyllid y sector cyhoeddus drwy arweinyddiaeth gref a chynllunio a rheoli cadarn. Mae gennym sail gadarn o hyd sydd yn ein galluogi i gyflawni gwelliannau pellach i ansawdd y ddarpariaeth ar draws y Coleg ac i fynd ar drywydd cyfleoedd newydd fydd o fudd i'n dysgwyr, nawr ac yn y dyfodol.

Hefyd, mae gan y cyfnod hwn y potensial am ddatblygiadau mawr cyffrous i ystâd y Coleg, bydd hynny'n ein galluogi i ymgymryd ag **ailgyfluniad trawsffurfio i Goleg Gwent i fodloni anghenion ein dysgwyr yn well**. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n Hawdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion am Ganolfan Ôl-16 newydd ar gyfer Torfaen, cyfleusterau newydd yn ein Campws ym Mrynbuga, a, hefyd mewn partneriaeth gyda Phrifysgol De Cymru, Ardal Gwybodaeth Casnewydd.

Fel nifer o sefydliadau eraill yn ein sector, rydym yn wynebu nifer o heriau a sbardunau ar gyfer newid, a fydd yn dylanwadu arnom mewn ffyrdd gwahanol.

Coleg Gwent yw un o'r colegau
mwyaf ac un o'r rhai sy'n
perfformio orau yng Nghymru

Yn benodol rydym yn cydnabod:

- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector Addysg Bellach, sy'n atgyfnerthu ein gwaith cyfredol ar safonau a pherfformiad, cydweithio gyda darparwyr addysg eraill, a chefnogi twf a chyflogaeth.
- Blaenoriaethau ar gyfer sgiliau, swyddi a thwf yn rhanbarth De Orllewin Cymru fel sydd wedi'u nodi gan y Bartneriaeth Dysgu, Sgiliau ac Arloesi (LSkIP) a Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd. Roedd Coleg Gwent yn bartner yn LSkIP, sydd wedi newid bellach yn Fwrdd Sgiliau a Chyflogaeth ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac rydym mewn sefyllfa dda i helpu i lywio'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu sydd wedi codi o'r Fargen Prifddinas, a'u symud yn eu blaenau.
- Y lefel lai o gyllid prif ffrwd sydd ar gael i'r Coleg sy'n golygu bod angen i ni barhau i leihau ein dibyniaeth ar gyllid craidd, a chynyddu'r incwm o ffynonellau masnachol a ffynonellau eraill.
- Yr angen i weithio mewn partneriaethau a chydweithio gyda chyflogwyr, rhanddeiliaid a darparwyr eraill i symud prosiectau strategol yn eu blaenau a sicrhau cyllid. Mewn blynyddoedd diweddar rydym wedi dechrau gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid allanol, sydd wedi arwain at gyllid a buddsoddi sylweddol ar draws y Coleg. Byddwn yn parhau i ymgysylltu mewn gweithio gyda phartneriaid, gan arwain pan fydd hyn o fantais i ni a'n partneriaid.
- Heriau a chyfleoedd o weithio gyda pholisïau addysg ac anghenion gwahanol y pum Awdurdod Lleol. Bydd angen i ni sicrhau ei bod yn cefnogi ac yn ymateb i'r polisïau a'r strategaethau addysgol unigol, a newidiol o bosibl, drwy gydol cyfnod y cynllun hwn, wrth hyrwyddo ein hargyhoeddiad y gall y Coleg gyflwyno addysg a chefnogaeth o ansawdd uchel i'r holl ddysgwyr.
- Dull sy'n seiliedig ar raglen o ymdrin â'r cwriclewm a chymwysterau yn seiliedig ar becyn o ddysgu gyda diben a chanlyniad ar gyfer symud ymlaen at gyflogaeth neu addysg uwch.
- Yr heriau sydd angen i ni roi sylw iddynt i gefnogi lles cenedlaethau'r dyfodol a phlannu'r Iaith Gymraeg yn y Coleg.



Mae'r cynllun hwn yn cynnig ffocws i'r Coleg ar ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu strategol i gyflawni ansawdd a rhagoriaeth erbyn 2019. Mae'n bwysig fod y cynllun hwn yn cael ei rannu gyda staff a dysgwyr, a'i gyfathrebu iddynt, a byddwn yn monitro ac yn adrodd ar lwyddiant y cynllun hwn yn rheolaidd drwy fesurau sydd wedi eu nodi ar gyfer pob blaenoriaeth. Bydd y cynllun strategol hefyd yn cael ei adolygu a, lle bo'n angenrheidiol, ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol.

Bydd llwyddiant y cynllun strategol hwn yn cael ei gyflawni drwy arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, ynghyd ag ymgysylltiad staff a dysgwyr, a'r cynllun hwn fydd sbardun ein gweledigaeth i Goleg Gwent fod Y Coleg o Ddewis.

Guy Lacey
Pennaeth/Prif Weithredwr



Pontypool
Campws



BLAENORIAETHAU STRATEGOL



BLAENORIAETH 1

Bydd pob **dysgwr** yn cyflawni ei botensial llawn

Camau Gweithredu: Byddwn yn...

- 1 Trin pob dysgwr fel unigolyn, gan eu galluogi a'u cymell i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a gwireddu eu potensial.
 - 2 Darparu addysg a hyfforddiant sy'n rhoi sgiliau ar gyfer cyflogaeth wrth wraidd y profiad dysgu.
 - 3 Datblygu sgiliau Mathemateg, Saesneg a Digidol ein holl ddysgwyr er mwyn sicrhau nad yw hyn yn rhwystr i addysg bellach neu gyflogaeth.
 - 4 Sefydlu amgylchedd lle mae'r holl ddysgwyr yn cael profiad dysgu rhagorol.
-

Mesurau llwyddiant erbyn 2019

- Bydd cyfraddau llwyddo yn y prif gymwysterau y tu hwnt i 90%.
- Bydd y gyfran o ILPs a gyflawnir ar gyfer yr holl ddysgwyr yn ystod tymor cyntaf eu cwrs yn fwy na 95%.
- Bydd holl ddysgwyr Lefel 2 a Lefel 3 yn cwblhau cyfnod o weithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith fel rhan o'u rhaglen.
- Bydd o leiaf 40% o ddysgwyr sy'n sefyll TGAU Mathemateg neu Saesneg yn cael gradd A*-C.
- Bydd boddhad cyffredinol myfyrwyr (Rhagorol neu Dda yn yr Adolygiad Cwrs a'r holiadur Gwerthusiad Dysgwr 5.2) yn fwy na 90% ym mhob Ysgol ar draws y Coleg.

BLAENORIAETH 2

Bydd pob dysgwr yn profi **addysgu** ac asesu rhagorol

Camau Gweithredu: Byddwn yn...

- 1 Monitro ansawdd yr addysgu, asesu a'r arfer tiwtorial yn rheolaidd i fod yn sail i'n cynlluniau gwella ac i'w mireinio.
 - 2 Cyflawni asesu dysgu trefnus wedi'u gynllunio'n dda sy'n cael ei olrhain yn effeithiol ac yn sicrhau fod dysgwyr yn ennill eu cymwysterau ac yn symud ymlaen yn briodol.
 - 3 Cynyddu'r nifer o gyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o dan y Llwybrau Dysgu 14-19.
Cynnig mynediad at ddatblygiad staff arloesol ac effeithiol er mwyn sicrhau fod arfer addysgu yn ysbrydoledig, yn ysgogi ac yn herio'r holl ddysgwyr.
 - 4 Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael mynediad at dechnoleg, a'i ddefnyddio, mewn addysgu ac asesu.
-

Mesurau llwyddiant erbyn 2019

- Bydd cyrhaeddiad yn yr HOLL gymwysterau yn fwy na 98% yn gyffredinol.
- Bydd Addysgu a Dysgu (Cwestiwn Allweddol 2) yn cael ei feirniadu ar hunanasesu i fod yn Rhagorol mewn o leiaf 12 o'r 19 ysgol yn y Coleg ac ni fydd unrhyw ysgol yn cael ei beirniadu'n Anfoddhaol.
- Bydd boddhad myfyrwyr gyda gwersi yn fwy na 90% yn holiadur CRE 5.2 (Gwneud gwersi'n amrywiol ac yn ddiddorol – Rhagorol a Da).
- Bydd yr holl staff addysgu llawn amser a rhan amser yn cyflawni'r Her Olympaidd ar lefel Efydd, gydag o leiaf 80% Arian a 50% Aur.
- Bydd 100% o'r holl staff addysgu yn ymgymryd ag o leiaf 30 awr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).
- Bydd seilwaith i gefnogi'r defnydd o dechnoleg ar waith a bydd lefelau uchel o foddhad dysgwyr yn cael ei gofnodi (o leiaf mwy na 80% yn Adolygiad Cwrs y Dysgwyr a holiadur Gwerthusiad 5.2).
- Cynnydd o 10% yn y nifer o gyrsiau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.

BLAENORIAETH 3

Bydd pob dysgwr yn derbyn **gofal, arweiniad a chefnogaeth** ragorol

Camau Gweithredu: Byddwn yn...

- 1 Cynnig cyngor ac arweiniad diduedd i sicrhau fod recriwtio'n cael ei sbarduno gan angen y dysgwr ac yn galluogi cyflawniad a chynnydd llwyddiannus i addysg bellach neu waith.
 - 2 Cynnig gofal, cefnogaeth ac arweiniad academiaidd a bugeiliol o ansawdd uchel, i sicrhau fod dysgwyr yn symud ymlaen ac yn gallu llwyddo.
 - 3 Sicrhau diwylliant o ddiogelwch a pharch sy'n cael ei groesawu gan yr holl staff a dysgwyr, i sicrhau fod lles pawb yn cael ei hyrwyddo yn ystod eu hamser yn y Coleg.
 - 4 Ymateb i ofynion dysgu ein dysgwyr dwyieithog, a'u cefnogi.
 - 5 Cynnig cyfleoedd cyfoethogi diddorol a dymunol sy'n datblygu sgiliau cyflogadwyedd dysgwyr yn ogystal â'u sgiliau cymdeithasol a phersonol.
-

Mesurau llwyddiant erbyn 2019

- Bydd y nifer sy'n gadael yn fuan yn llai na 4%.
- Bydd y nifer sy'n aros fel dysgwyr llawn amser yn uwch na 93%.
- Bydd boddhad dysgwyr gyda chynnig cymorth a chefnogaeth pan fo'r angen yn fwy na 91% (Rhagorol a Da yn yr Adolygiad Cwrs a holiaduron Gwerthusiad 5.1 a 5.2).
- Bydd ymholiadau dysgwyr yn cael eu cofnodi a bydd rhywun yn ymateb iddynt o fewn 24 awr, gyda chyfradd trawsnewid o 85% ar gyfer ceisiadau llawn amser.
- Cynnydd o 10% yn y nifer o ddysgwyr sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth/y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Bydd yr holl ddysgwyr llawn amser yn cymryd rhan mewn o leiaf 3 cyfle cyfoethogi y flwyddyn.

BLAENORIAETH 4

Bydd y Coleg yn cynnig **arweinyddiaeth a llywodraethu** rhagorol ar bob lefel

Camau Gweithredu: Byddwn yn...

- 1 Arddangos safonau rhagorol o ran Llywodraethu ac Arweinyddiaeth sy'n cael ei gydnabod drwy adolygu a chraffu allanol.
 - 2 Datblygu a mewnosod set o werthoedd craidd ac ymddygiadau cynhwysol fydd yn ysgogi diwylliant cefnogol, sy'n cynnwys hyfforddiant ac sy'n canolbwyntio ar gyflawniad ar draws y Coleg.
 - 3 Rhoi fframwaith Rhagoriaeth Perfformiad newydd ar waith ar draws y Coleg i hyrwyddo cyfraniad unigol a chyfraniad tîm i lwyddiant y Coleg.
-

Mesurau llwyddiant erbyn 2019

- Arfer da a rhagorol o ran Llywodraethu ac arweinyddiaeth yn cael ei amlygu yn rhaglen Hunanasesu'r Coleg neu Archwiliadau Mewnol.
- Derbyn sicrwydd cadarnhaol cyffredinol o'r rhaglen Archwilio Mewnol.
- Gwelliant parhaus yn yr adborth a dderbynnir drwy'r arolwg staff blynyddol - gyda tharged cyffredinol erbyn 2019 o 90% o staff ar gyfartaledd yn ymateb gyda Chytuno'n Gryf neu Gytuno.
- Bydd rheolwyr gwydn a hyfedr yn sicrhau ein bod yn cyflawni i bob Dangosydd Perfformiad Allweddol fel y nodwyd yn Llawlyfr Cynllunio'r Rheolwyr.
- Bydd arweinwyr cymwys yn arwain at o leiaf 15 ysgol yn cael eu graddio'n dda neu'n well ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3 drwy hunanasesu.

BLAENORIAETH 5

Bydd y Coleg yn sicrhau **dyfodol cynaliadwy**

Camau Gweithredu: Byddwn yn...

- 1 Datblygu prosesau effeithiol ac ymatebol ar draws y Coleg i gefnogi gweithgarwch masnachol gyda gweithwyr, gan hyrwyddo cynhyrchu incwm a thwf masnachol.
 - 2 Ennill arian dros ben yn unol â tharged i fodloni anghenion buddsoddi cydnabyddedig.
 - 3 Cymryd rhan effeithiol mewn cyfleoedd partneriaeth allanol a fydd yn cynnig manteision sylweddol i'n dysgwyr a staff ac yn gwella enw da'r Coleg.
 - 4 Canolbwyntio effeithiolrwydd ar ddefnyddio holl adnoddau'r coleg a gwerth am arian yn yr holl benderfyniadau caffael a buddsoddi.
 - 5 Datblygu a chymeradwyo strategaethau diwygiedig ar gyfer datblygu ystâd y Coleg a'r defnydd o dechnoleg ar draws yr ystâd.
 - 6 Hyrwyddo gwelliant parhaus er mwyn i ni barhau i leihau effaith amgylcheddol a chynaliadwy ein gweithgareddau.
-

Mesurau llwyddiant erbyn 2019

- Gweddill gweithredol o 3.3% o'r incwm.
- Costau staff sy'n llai na 66% o'r incwm.
- Incwm prif ffrwd sy'n llai na 80% o gyfanswm yr incwm.
- Sgôr Iechyd Ariannol Blynnyddol Llywodraeth Cymru wedi'i asesu ac yn Dda neu well.
- Bydd o leiaf pum grŵp sector cyflogaeth sefydledig yn cyfarfod yn rheolaidd.
- Cyflawni a chynnal cyfradd ailgylchu/gwastraff i egni 100%.